Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

MAWRTH 2025

**Croeso** i rifyn nesaf y Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Diolch i bawb a gynigiodd adborth a syniadau yn dilyn rhifyn y mis diwethaf.
Gofynnwn ichi barhau i rannu eich barn, eich sylwadau a'ch syniadau fel y gallwn sicrhau bod y Bwletin mor berthnasol a defnyddiol â phosibl.

**ADUSau a gomisiynwyd**
Mae'r Hwb Cydgysylltu wedi derbyn 4 hysbysiad ADUS y mis hwn, gan ddod â chyfanswm yr ADUSau sydd wedi'u comisiynu ers 1 Hydref i 14.

Ymarfer Plant: 8
Ymarfer Oedolion: 2
Cam-drin Domestig: 3
Ymarfer Oedolion ac yn Ymwneud â Cham-drin Domestig: 1

## Newyddion

Storfa Ddiogelu Cymru
Wales Safeguarding Repository

Ar hyn o bryd mae tîm Storfa Ddiogelu Cymru wrthi'n profi mynediad o bell i'r Storfa. Bydd tîm ADUS wedyn yn cynnal ymarfer tebyg cyn rhoi mynediad i bawb sydd ar y Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy trwy restr gwyn IP. Y nod yw y bydd y cam hwn yn cael ei gwblhau erbyn y digwyddiad lansio ym mis Mai, lle bydd y tîm yn chwilio am gyfranogwyr ar gyfer astudiaeth a ariennir gan Brifysgol Caerdydd ar effaith Storfa Ddiogelu Cymru ar y broses ADUS.

# Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS

Bydd y Digwyddiad Lledaenu Gwybodaeth ADUS cyntaf yn cael ei gynnal yn Venue Cymru, Llandudno ar 20 Mai 2025. Bydd siaradwyr yn cynnwys y canlynol:

- Dr Bethan Davies, Cydymaith Ymchwil, Storfa Ddiogelu Cymru, Prifysgol Caerdydd - Gwyliwch Storfa Ddiogelu Cymru ar waith a dysgu sut i ddefnyddio'r adnodd hwn i wella'r ffordd rydych chi'n ysgrifennu argymhellion ADUS.
- Yr Athro Michelle McManus, Cyd-gyfarwyddwr y Sefydliad ar gyfer Dyfodol Plant, Prifysgol Metropolitan Manceinion - Manteisiwch ar ddysgu allweddol o Adolygiadau Ymarfer Plant / Adolygiadau Ymarfer Oedolion yng Nghymru ar gyfer llunio eich adroddiadau a'ch argymhellion ADUS.
- Dr James Rowlands, Athro Cynorthwyol mewn Cymdeithaseg, Prifysgol Durham - Clywch am brofiadau ac ymchwil James o ran cyfranogiad cyflawnwyr a'u teuluoedd mewn Adolygiadau o Farwolaethau sy'n Gysylltiedig â Cham-drin Domestig, risgiau a manteision y math hwn o ymgysylltu, yn ogystal â dulliau ar gyfer gwneud hynny.

Mae gwahoddiadau i'r digwyddiad wedi'u hanfon at weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag adolygiadau ledled Cymru.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

# Hyfforddiant

Bydd dwy sesiwn hyfforddi Adolygwyr a Chadeiryddion cenedlaethol arall yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, bydd dwy sesiwn hyfforddi aelodau'r panel yn cael eu cyflwyno ym mhob rhanbarth.
Yng Ngogledd Cymru, mae hyfforddiant pellach wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd mis Mehefin.

# Rhwydwaith Cymorth yr Adolygwyr a'r Cadeiryddion

Cynhaliwyd sesiwn gyntaf y Rhwydwaith Cymorth ar 27 Mawrth gyda dros 70 o bobl yn bresennol. Roedd adborth o'r sesiwn yn gadarnhaol. Diolch yn fawr i'n panel o Adolygwyr a Chadeiryddion profiadol am rannu eu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Mae sesiynau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer **3 Gorffennaf, 23 Medi ac 11 Rhagfyr.** Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar drin y wasg a'r cyfryngau, ysgrifennu argymhellion a hwyluso digwyddiadau dysgu.